



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 88 (Cy. 21)

2018 No. 88 (W. 21)

TRETHI, CYMRU

TAXES, WALES

**Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi
(Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru)
2018**

**The Tax Collection and
Management (Reimbursement
Arrangements) (Wales) Regulations
2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn trefniadau talu'n ôl a wneir gan berson sy'n gwneud hawliad o dan adran 63 (hawlio rhyddhad rhag treth a ordalwyd) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Deuant i rym ar 1 Ebrill 2018.

Mae rheoliad 2 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i drefniadau talu'n ôl gael eu diystyru at ddibenion adran 64 (gwrthod hawliadau am ryddhad oherwydd cyfoethogi anghyfiawn) o'r Ddeddf oni bai eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau 4 a 7.

Mae rheoliad 4 yn disgrifio'r darpariaethau manwl y mae'n rhaid eu cynnwys mewn trefniadau talu'n ôl.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i hawlydd ad-dalu i Awdurdod Cyllid Cymru unrhyw swm a gafodd yr hawlydd er mwyn talu'n ôl i gwsmeriaid, ond yr oedd yr hawlydd wedi methu â'i gymhwyso at y diben hwnnw o fewn 30 o ddiwrnodau i gael y swm hwnnw.

Mae rheoliad 6 yn disgrifio'r cofnodion y mae'n rhaid i'r hawlydd eu cadw mewn perthynas â'r trefniadau talu'n ôl.

Mae rheoliad 7 yn disgrifio'r ymgymeriadau y mae'n rhaid i'r hawlydd eu rhoi er mwyn cydymffurfio â threfniadau talu'n ôl yr hawlydd.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations describe the provisions that must be included in reimbursement arrangements made by a person making a claim under section 63 (claim for relief for overpaid tax) of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 ("the Act"). They come into force on 1 April 2018.

Regulation 2 defines certain terms used in the Regulations.

Regulation 3 provides that reimbursement arrangements must be disregarded for the purposes of section 64 (disallowing claims for relief due to unjustified enrichment) of the Act, unless they comply with regulations 4 and 7.

Regulation 4 describes the detailed provisions that must be included in reimbursement arrangements.

Regulation 5 requires a claimant to repay to the Welsh Revenue Authority any amount which the claimant received in order to reimburse customers, but which the claimant had failed to apply to that purpose within 30 days of receipt of that amount.

Regulation 6 describes the records that the claimant must keep relating to the reimbursement arrangements.

Regulation 7 describes the undertakings that the claimant must give to comply with the claimant's reimbursement arrangements.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaethau mewn cysylltiad â chosbau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 8 makes provisions in respect of penalties.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely cost and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2018 Rhif 88 (Cy. 21)

2018 No. 88 (W. 21)

TRETHI, CYMRU

TAXES, WALES

**Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi
(Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru)
2018**

**The Tax Collection and
Management (Reimbursement
Arrangements) (Wales) Regulations
2018**

Gwnaed 24 Ionawr 2018

Made 24 January 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Ionawr 2018

Laid before the National Assembly for Wales
29 January 2018

Yn dod i rym 1 Ebrill 2018

Coming into force 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 66, 69 a 188 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 66, 69 and 188 of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Tax Collection and Management (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2018.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2018.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “ACC” (“*WRA*”) yw Awdurdod Cyllid Cymru;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;

ystyr “hawliad” (“*claim*”) yw hawliad a wneir o dan adran 63(2) o'r Ddeddf;

ystyr “swm perthnasol” (“*relevant amount*”) yw'r rhan honno o swm hawliad (a allai fod y swm cyfan) y mae'r hawlydd wedi ei thalu'n ôl neu'n bwriadu ei thalu'n ôl i gwsmeriaid; ac

Interpretation

2. In these Regulations—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016;

“claim” (“*hawliad*”) means a claim made under section 63(2) of the Act;

“reimbursement arrangements” (“*trefniadau talu'n ôl*”) means any arrangements for the purposes of a claim which—

(a) are made by a claimant for the purpose of securing that the claimant is not unjustly

(1) 2016 dccc 6.

(1) 2016 anaw 6.

ystyr “trefniadau talu’n ôl” (“*reimbursement arrangements*”) yw unrhyw drefniadau at ddibenion hawliad—

- (a) a wneir gan hawlydd at ddiben sicrhau na chaiff yr hawlydd ei gyfoethogi’n annheg yn sgil ad-dalu unrhyw swm yn unol â’r hawliad; a
- (b) sy’n darparu ar gyfer talu’n ôl i bersonau (“*cwsmeriaid*”) sydd, at ddibenion ymarferol, wedi ysgwyddo holl gost neu ran o gost y taliad gwreiddiol o’r swm hwnnw i ACC.

Trefniadau talu’n ôl – cyffredinol

3. At ddibenion adran 64 o’r Ddeddf (gwrthod hawliadau am ryddhad oherwydd cyfoethogi anghyfiawn) rhaid diystyru trefniadau talu’n ôl a wneir gan hawlydd ac eithrio pan fônt—

- (a) yn cynnwys y darpariaethau a ddisgrifir yn rheoliad 4; a
- (b) yn cael eu hategu gan yr ymgymeriadau a ddisgrifir yn rheoliad 7.

Trefniadau talu’n ôl – y darpariaethau sydd i’w cynnwys

4. Y darpariaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(a) yw—

- (a) y bydd y talu’n ôl y mae’r trefniadau’n darparu ar ei gyfer wedi ei gwblhau yn ddim hwyrach na 90 o ddiwrnodau ar ôl yr ad-daliad y mae’n ymwneud ag ef;
- (b) na wneir unrhyw ddidyniad o’r swm perthnasol ar ffurf ffi neu dâl (ym mha fodd bynnag y’i mynegir neu y rhoddir effaith iddi neu iddo);
- (c) y bydd y talu’n ôl yn cael ei wneud mewn arian parod neu ar ffurf siec yn unig neu, gyda chytundeb yr hawlydd, drwy drosglwyddiad electronig;
- (d) y bydd yr hawlydd yn ad-dalu i ACC unrhyw ran o’r swm perthnasol nad yw wedi ei thalu’n ôl erbyn yr adeg a grybwyllir ym mharagraff (a);
- (e) y bydd yr hawlydd hefyd yn trin unrhyw log a delir gan ACC ar unrhyw swm perthnasol a ad-delir gan ACC yn yr un modd ag y mae’r swm perthnasol i’w drin o dan baragraffau (a) a (b); ac
- (f) y bydd yr hawlydd yn cadw’r cofnodion a ddisgrifir yn rheoliad 6.

enriched by the repayment of any amount in pursuance of the claim; and

- (b) provide for the reimbursement of persons (“*customers*”) who have, for practical purposes, borne the whole or any part of the cost of the original payment of that amount to WRA;

“*relevant amount*” (“*swm perthnasol*”) means that part (which may be the whole) of the amount of a claim which the claimant has reimbursed or intends to reimburse to customers; and

“*WRA*” (“*ACC*”) means the Welsh Revenue Authority.

Reimbursement arrangements – general

3. For the purposes of section 64 of the Act (disallowing claims for relief due to unjustified enrichment) reimbursement arrangements made by a claimant must be disregarded except where they—

- (a) include the provisions described in regulation 4; and
- (b) are supported by the undertakings described in regulation 7.

Reimbursement arrangements – provisions to be included

4. The provisions referred to in regulation 3(a) are that—

- (a) reimbursement for which the arrangements provide will be completed by no later than 90 days after the repayment to which it relates;
- (b) no deduction will be made from the relevant amount by way of fee or charge (howsoever expressed or effected);
- (c) reimbursement will be made only in cash or by cheque or, with the agreement of the claimant, by electronic transfer;
- (d) any part of the relevant amount that is not reimbursed by the time mentioned in paragraph (a) will be repaid by the claimant to WRA;
- (e) any interest paid by WRA on any relevant amount repaid by it will also be treated by the claimant in the same way as the relevant amount falls to be treated under paragraphs (a) and (b); and
- (f) the claimant will keep the records described in regulation 6.

Ad-daliadau i ACC

5. Rhaid i'r hawlydd, heb archiad ymlaen llaw, wneud unrhyw ad-daliad i ACC y mae'n ofynnol i'r hawlydd ei wneud yn rhinwedd rheoliad 4(d) ac (e) o fewn 30 o ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod o 90 o ddiwrnodau y cyfeirir ato yn rheoliad 4(a).

Cofnodion

6.—(1) Rhaid i'r hawlydd gadw cofnodion o'r materion a ganlyn—

- (a) enwau a chyfeiriadau'r cwsmeriaid hynny y mae'r hawlydd wedi talu'n ôl iddynt neu y mae'r hawlydd yn bwriadu talu'n ôl iddynt;
- (b) y cyfanswm a dalwyd yn ôl i bob cwsmer o'r fath, gan gynnwys ym mhob achos dderbynebau gan y rheini y talwyd yn ôl iddynt yn cydnabod faint a dalwyd yn ôl ac yn rhoi'r dyddiad y talwyd yn ôl iddynt;
- (c) swm y llog a gynhwyswyd ym mhob cyfanswm a dalwyd yn ôl i bob cwsmer; a
- (d) dyddiad pob achos o dalu'n ôl.

(2) Mae adran 69(2) o'r Ddeddf yn gymwys i gofnodion a gedwir o dan baragraff (1) fel y mae'n gymwys i gofnodion a gedwir o dan yr adran honno.

Ymgymeriadau

7.—(1) Rhaid i'r hawlydd roi'r ymgymeriadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(b) i ACC cyn i'r hawlydd wneud yr hawliad y gwnaed y trefniadau talu'n ôl ar ei gyfer, neu ar yr un pryd â'r hawliad.

(2) Rhaid i'r ymgymeriadau fod yn ysgrifenedig, rhaid i'r hawlydd eu llofnodi a'u dyddio, a rhaid iddynt fod i'r perwyl—

- (a) ar ddyddiad yr ymgymeriadau, fod yr hawlydd yn gallu nodi enwau a chyfeiriadau'r cwsmeriaid hynny y mae'r hawlydd wedi talu'n ôl iddynt neu y mae'r hawlydd yn bwriadu talu'n ôl iddynt;
- (b) y bydd yr hawlydd yn cymhwyso'r swm perthnasol yn ei gyfanrwydd, heb unrhyw ddidyniad ar ffurf ffi neu dâl na fel arall, i dalu'n ôl i gwsmeriaid o'r fath yn ddim hwyrach na 90 o ddiwrnodau ar ôl i'r hawlydd gael y swm hwnnw (ac eithrio i'r graddau y mae'r hawlydd eisoes wedi talu'n ôl iddynt);
- (c) y bydd yr hawlydd yn cymhwyso unrhyw log a dalwyd i'r hawlydd ar y swm perthnasol yn llwyr i dalu'n ôl i gwsmeriaid o'r fath yn ddim hwyrach na 90 o ddiwrnodau ar ôl i'r hawlydd gael y llog hwnnw;

Repayments to WRA

5. The claimant must, without prior demand, make any repayment to WRA that the claimant is required to make by virtue of regulation 4(d) and (e) within 30 days of the end of the period of 90 days referred to in regulation 4(a).

Records

6.—(1) The claimant must keep records of the following matters—

- (a) the names and addresses of those customers whom the claimant has reimbursed or whom the claimant intends to reimburse;
- (b) the total amount reimbursed to each such customer, including in all cases receipts from those reimbursed acknowledging how much has been reimbursed and giving the date of reimbursement;
- (c) the amount of interest included in each total amount reimbursed to each customer; and
- (d) the date that each reimbursement is made.

(2) Section 69(2) of the Act applies to records kept under paragraph (1) as it applies to records kept under that section.

Undertakings

7.—(1) The undertakings referred to in regulation 3(b) must be given to WRA by the claimant before or at the time at which the claimant makes the claim for which the reimbursement arrangements have been made.

(2) The undertakings must be in writing, be signed and dated by the claimant, and be to the effect that—

- (a) at the date of the undertakings the claimant is able to identify the names and addresses of those customers whom the claimant has reimbursed or whom the claimant intends to reimburse;
- (b) the claimant will apply the whole of the relevant amount, without any deduction by way of fee or charge or otherwise, to the reimbursement of such customers no later than 90 days after the claimant's receipt of that amount (except insofar as the claimant has already so reimbursed them);
- (c) the claimant will apply any interest paid to the claimant on the relevant amount wholly to the reimbursement of such customers no later than 90 days after the claimant's receipt of that interest;

- (d) y bydd yr hawlydd yn ad-dalu i ACC, heb archiad, y cyfan o'r swm perthnasol neu unrhyw ran ohono a ad-dalwyd i'r hawlydd neu o unrhyw log a dalwyd i'r hawlydd y mae'r hawlydd yn methu â'i gymhwyso yn unol â'r ymgymeriadau a grybwyllir yn is-baragraffau (b) ac (c), o fewn 30 o ddiwrnodau i ddiwedd y cyfnod o 90 o ddiwrnodau y cyfeirir ato yn yr is-baragraffau hynny; ac
- (e) y bydd yr hawlydd yn cadw'r cofnodion a ddisgrifir yn rheoliad 6.

(3) Rhaid i'r hawlydd gyflwyno ymgymeriad diwygiedig (i adlewyrchu'r diwygiad) i ACC o fewn 14 o ddiwrnodau i'r adeg—

- (a) y mae'r hawlydd yn diwygio hawliad o dan adran 71(1) o'r Ddeddf; neu
- (b) y mae ACC yn diwygio hawliad o dan adran 75(2)(b) o'r Ddeddf.

Cosbau

8.—(1) Mae'r darpariaethau yn adrannau 143 i 145 o'r Ddeddf (cosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion a threfniadau talu'n ôl) yn gymwys i fethiant i gydymffurfio â rheoliad 6 fel y maent yn gymwys i fethiant i gydymffurfio ag adran 69 o'r Ddeddf.

(2) Mae hawlydd sy'n methu â chydymffurfio â rheoliad 5 yn agored i gosb o 100% o swm unrhyw ad-daliad y mae'n ofynnol i'r hawlydd ei wneud i ACC yn rhinwedd rheoliad 4(d) ac (e).

(3) Mae adrannau 125 i 128 o'r Ddeddf yn gymwys i gosb o dan baragraff (2) fel y maent yn gymwys i gosb o dan adran 122 o'r Ddeddf.

(4) Nid yw adran 157A o'r Ddeddf (llog taliadau hwyr ar gosbau) yn gymwys i gosb o dan baragraff (2).

(5) Mae adran 154 o'r Ddeddf (talu cosbau) yn gymwys i gosb o dan y rheoliad hwn.

- (d) the claimant will repay to WRA without demand the whole or such part of the relevant amount repaid to the claimant or of any interest paid to the claimant as the claimant fails to apply in accordance with the undertakings mentioned in sub-paragraphs (b) and (c), within 30 days of the end of the period of 90 days referred to in those sub-paragraphs; and
- (e) the claimant will keep the records described in regulation 6.

(3) The claimant must submit to WRA an amended undertaking (to reflect the amendment) within 14 days of—

- (a) the claimant amending a claim under section 71(1) of the Act; or
- (b) WRA amending a claim under section 75(2)(b) of the Act.

Penalties

8.—(1) The provisions in sections 143 to 145 of the Act (penalties relating to record-keeping and reimbursement arrangements) apply to a failure to comply with regulation 6 as they apply to a failure to comply with section 69 of the Act.

(2) A claimant who fails to comply with regulation 5 is liable to a penalty of 100% of the amount of any repayment to WRA that the claimant is required to make by virtue of regulation 4(d) and (e).

(3) Sections 125 to 128 of the Act apply to a penalty under paragraph (2) as they apply to a penalty under section 122 of the Act.

(4) Section 157A of the Act (late payment interest on penalties) does not apply to a penalty under paragraph (2).

(5) Section 154 of the Act (payment of penalties) applies to a penalty under this regulation.

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
24 Ionawr 2018

©©Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Cabinet Secretary for Finance, one of the Welsh Ministers
24 January 2018

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 88 (Cy. 21)

2018 No. 88 (W. 21)

TRETHI, CYMRU

TAXES, WALES

Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi
(Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru)
2018

The Tax Collection and
Management (Reimbursement
Arrangements) (Wales) Regulations
2018

£6.00

W201801251005 02/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/88>

ISBN 978-0-348-20195-6



9 780348 201956